COFNODION CYFARFOD y Cabinet A GYNHALIWYD ar ffurf hybrid yn Siambr y Cyngor – Y Swyddfeydd Dinesig, Stryd yr Angel, Pen-y-bont ar Ogwr CF31 4WB / o bell drwy gyfrwng Microsoft Teams ddydd Mawrth, 10 Mawrth 2026 AM 14:30

Yn Bresennol

Y Cynghorydd JC Spanswick — Cadeirydd

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| J Gebbie | N Farr | E Caparros | M Evans | G Haines | M Jones |

Yn Bresennol yn Rhithwir

H Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Jake Morgan | Prif Weithredwr |
| Stephen Griffiths | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Cymunedau |
| Mark Galvin | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau |
| Kelly Watson | Swyddog Monitro |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau |
| Adam Provoost | Rheolwr Cynllunio Strategol a Chludiant |
| Louis Pannell | Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio Strategol |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Nigel Smith | Prif Gyfrifydd |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg, Blynyddoedd Cynnar a Phobl Ifanc |
| Ryan Jones | Rheolwr Comisiynu Tai Strategol |

**608. Ymddiheuriadau am Absenoldeb**

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 10 Mawrth 2026 |

## 609. Datganiadau o Fuddiant

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Gwnaed y datganiadau canlynol o fuddiant:-<br><br>Datganodd y Cynghorydd G Haines fuddiant personol yn eitem 5 ar yr Agenda<br>Datganodd y Cynghorydd E Caparros fuddiant rhagfarnus yn eitem 17 ar yr Agenda. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 10 Mawrth 2026 |

## 610. Cymeradwyo Cofnodion

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: Bod cofnodion cyfarfod y Cabinet dyddiedig 03/02/2026, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 10 Mawrth 2026 |

## 611. Cysylltu â Gwaith

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd yr Aelod o'r Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai adroddiad er mwyn rhoi trosolwg i'r Cabinet o raglen Cysylltu â Gwaith Llywodraeth y DU, i gytuno ar gynnig bod Cyngor Caerdydd yn gweithredu fel Derbynnydd y Grant rhanbarthol, ac i awdurdodi swyddogion i ymrwymo i gytundebau gofynnol i ddarparu Cysylltu â Gwaith ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| | Esboniodd yr adroddiad fod Cysylltu â Gwaith (CTW) yn rhaglen 5 mlynedd newydd i'w chyflwyno gan ardaloedd Awdurdodau Lleol yng Nghymru a Lloegr, gyda chyllid ar gael gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP). Yn ne-ddwyrain Cymru, cynigiwyd bod y rhaglen yn cael ei harwain gan Gyngor Caerdydd fel Derbynnydd y Grant ar gyfer 10 Awdurdod Lleol yn ne-ddwyrain Cymru.<br><br>Dyraniad cyllid Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yw £4,055,200 o 2025/26 i 2029/30 i gefnogi 1,096 o gyfranogwyr. Mae'n rhaglen wirfoddol, ffyddlondeb uchel gyda Chymorth Cyflogaeth sy'n cysylltu cymorth gwaith, iechyd a sgiliau. Y nod yw helpu pobl anabl, pobl â chyflyrau iechyd, a'r rhai sydd â rhwystrau cymhleth, i ddod o hyd i waith ac aros mewn gwaith.<br><br>Gan gyfeirio at baragraff 2.14 yr adroddiad, gofynnodd y Dirprwy Arweinydd am rywfaint o sicrwydd bod y ffi weinyddu o 10% o'r dyraniad grant cyffredinol ar gyfer y rhanbarth a godir gan Gyngor Caerdydd yn cyfateb i 'werth am arian', gyda gofyn i bob awdurdod lleol dalu ei daliadau mewnol ei hun o'i gyllid a ddyrannwyd, ar yr amod ei fod yn werth am arian. Ychwanegodd hefyd fod parhad y gwaith mewn perthynas â'r cynllun hwn hefyd yn cynnwys y Bwrdd Iechyd Lleol, gan mai natur y cynllun oedd cynorthwyo pobl â chyflyrau iechyd ac anableddau yn goresgyn rhwystrau fel y gallent ennill neu adennill cyfleoedd cyflogaeth.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi cytuno bod Cyngor Caerdydd yn gweithredu fel Derbynnydd y Grant rhanbarthol.<br><br>2. Wedi cytuno bod Rheolwr y Rhaglen Menter a Chyflogadwyedd yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar Grŵp Strategol CTW dan arweiniad Cyngor Caerdydd ac Arweinydd y Tîm Cyflogadwyedd yn cynrychioli'r cyngor ar Grŵp Gweithredol CTW.<br>3. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio a Chyfarwyddwr Adnoddau Dynol ac Etholiadol a Chorfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid i drafod cytundeb cyllido rhanbarthol CTW ac unrhyw weithredoedd a dogfennau pellach sy'n ategol i'r cytundeb neu sy'n angenrheidiol i gyflwyno CTW. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 10 Mawrth 2026 |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 612. Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) Drafft: Cyfleusterau Addysg a Datblygiad Preswyl

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Diben yr adroddiad hwn a gyflwynwyd gan yr Aelod o'r Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai, oedd ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i ymgynghori ar y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) drafft ar gyfer Cyfleusterau Addysgol a Datblygu Preswyl. Bydd mabwysiadu'r CCA wedi hynny yn cefnogi gweithrediad effeithiol y fframwaith polisi cynllunio presennol a gynhwysir o fewn y Cynllun Datblygu Lleol Amnewid a fabwysiadwyd Mawrth 2024 (RCDLl), dogfen gynllunio defnydd tir statudol y Cyngor. Mae'n esbonio'n fanwl ymagwedd y Cyngor tuag at ddarparu cyfleusterau addysgol ac yn amlinellu sut y bydd y Cyngor, lle bo'n briodol, yn ceisio rhwymedigaethau cynllunio i ddarparu neu wella cyfleusterau addysg ac ysgolion fel rhan o ddatblygiadau preswyl newydd ledled y Fwrdeistref Sirol.<br><br>Roedd y CCA drafft ynghlwm wrth yr adroddiad yn Atodiad 1.<br><br>Cyfeiriodd aelod at dudalen 56 yr adroddiad a Thabl 2, o dan y pennawd Cost fesul Lle Disgybl, ac at baragraff 5.20 yn union islaw'r tabl hwn, a nododd fod y ffigurau yn y tabl wedi'u profi yn erbyn costau prosiectau adeiladu ysgolion newydd a gwblhawyd yn ddiweddar ac y bydd y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn adlewyrchu newidiadau yng nghostau adeiladu ysgolion. Gofynnodd pryd y cafodd y ffigurau hyn eu hadolygu ddiwethaf, ac wrth fod yn ymwybodol o gostau gwaith adeiladu yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn, gofynnodd beth oedd yr awdurdod lleol yn ei wneud i liniaru costau o'r fath yn ddigonol.<br><br>Cynghorodd Arweinydd y Tîm Polisi Cynllunio Strategol y byddai'r CCA newydd yn mynd i'r afael â phwyntiau fel yr uchod, drwy adolygu meysydd allweddol o hyn, i gynnwys ystyried, er enghraifft, gyfraddau cynnyrch disgyblion a chanllawiau costau cysylltiedig. Ychwanegwyd bod yr olaf yn arbennig o angenrheidiol, gan fod costau wedi cynyddu ers mabwysiadu'r CCA presennol yn 2021.<br><br>Pwysleisiodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig bod cyfleusterau cymunedol hefyd ar gael fel rhan o adeiladu ysgolion newydd ac, er mwyn ceisio sicrhau bod hyn yn cael ei gyflawni lle bynnag y bo modd, ei bod yn bwysig bod deialog yn digwydd cyn i'r gwaith safle fynd yn ei flaen, rhwng yr Adran Addysg, corff llywodraethu'r ysgolion a datblygwr y safle.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi cymeradwyo'r CCA drafft ar gyfer Cyfleusterau Addysgol a Datblygiad Preswyl (Atodiad 1 yr adroddiad y cyfeirir ato) fel sail ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus am gyfnod o ddim llai na 6 wythnos. |

| | |
|---|---|
| | 2. Wedi awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a'r Rheolwr Grŵp – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i wneud mân newidiadau cyflwyniadol, cywiriadau teipograffig neu ffeithiol yn ôl yr angen cyn yr ymgynghoriad cyhoeddus; ac<br>3. Wedi awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cymunedau a'r Rheolwr Grwpiau – Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i gynnal yr ymgynghoriad cyhoeddus ac i adrodd yn ôl ganlyniadau'r ymgynghoriad cyhoeddus i'r Cabinet er mwyn cymeradwyo anfon yr adroddiad at y Cyngor i ofyn am ei gymeradwyaeth ar gyfer mabwysiadu'r CCA drafft terfynol. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 10 Mawrth 2026 |

**613. Trefniant Partneriaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles ar gyfer Hyfforddiant Dementia**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod o'r Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, Iechyd a Lles adroddiad, i ofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ymrwymo i gytundeb partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIPCTM), gyda'r amcan o gefnogi cydweithrediad effeithiol y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol drwy weithgaredd dysgu a datblygu ar y cyd, er mwyn gwella canlyniadau i bobl yr effeithir arnyn nhw gan ddementia. Byddai'r cytundeb partneriaeth hwn yn gofyn am atal Rheolau Gweithdrefn Gontractau (CPRs) y Cyngor.<br><br>Dywedodd Aelod ei fod yn newyddion cadarnhaol yn yr ystyr bod trefniant ffurfiol yn cael ei roi ar waith erbyn hyn ar gyfer yr uchod, yn hytrach na chytundeb lleol, er mwyn i unigolion o fewn y Fwrdeistref Sirol fyw eu bywydau â chymaint o ryddid ac urddas â phosibl. Ychwanegodd y byddai sefyllfa, gobeithio, yn y dyfodol lle byddai argymhellion yr adroddiad yn cael eu hymgorffori o fewn y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol cyffredinol.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi nodi'r trefniant anffurfiol ac yn cymeradwyo ymrwymo i'r cytundeb partneriaeth â BIPCTM ac yn atal rhannau perthnasol o CPRs y Cyngor mewn perthynas â'r gofynion sy'n ymwneud â chaffael y ddarpariaeth hyfforddiant a datblygu dementia y bydd BIPCTM yn ei chyflawni;<br>2. Wedi rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles, i gymeradwyo telerau terfynol y cytundeb cydweithredu â BIPCTM ar ran y Cyngor a threfnu gweithredu'r cytundeb cydweithredu ar ran y Cyngor, yn amodol ar yr awdurdod dirprwyedig o'r fath |

| | |
|---|---|
| | yn cael ei arfer mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio ac Adnoddau Dynol ac Etholiadol. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 10 Mawrth 2026 |

**614. Adroddiad Rheoli'r Trysorlys Chwarter 3 2025–26**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Darparodd yr Aelod o'r Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad adroddiad a ddiweddarodd y Cabinet am weithgarwch Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Rhagfyr 2025.<br><br>Ar 31 Rhagfyr 2025, roedd gan y Cyngor £93.50 miliwn o ddyled hirdymor, £2.15 miliwn o fenthyciadau Salix (di-log yn bennaf), £14.85 miliwn o rwymedigaethau hirdymor eraill, a £56.95 miliwn o fuddsoddiadau.<br><br>Y sefyllfa ddyled net gyffredinol ar 31 Rhagfyr 2025 oedd £53.55 miliwn, gyda'r gyfradd llog cyfartalog ar gyfer dyled fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2025 yn 4.62%, a 3.66% ar gyfer buddsoddiadau.<br><br>Cadarnhaodd fod gan y Cyngor strwythur aeddfedrwydd hylaw o fenthyca, gyda'i ddyled bresennol yn ad-daladwy ar wahanol bwyntiau dros y 30 mlynedd nesaf, ac mae'r ad-daliad nesaf yn ddyledus ym mis Mawrth 2026.<br><br>Roedd yn ofynnol i'r Cyngor osod ac adrodd yn erbyn Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys, y mae manylion ohonynt wedi'u cynnwys yn Atodiad A i'r adroddiad. Roedd y rhain yn adlewyrchu bod y Cyngor yn gweithredu o fewn ei derfynau cymeradwy.<br><br>Mae'r Cyngor hefyd wedi cydymffurfio â Rheoli Trysorlys y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yng Nghod Ymarfer Gwasanaethau Cyhoeddus a Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru, yn ystod y cyfnod.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi nodi'r gweithgarwch rheoli'r trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Rhagfyr 2025.<br>2. Wedi nodi'r Dangosyddion ar gyfer Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 i 31 Rhagfyr 2025 yn erbyn y rhai a gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2025–26. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 10 Mawrth 2026 |

**615. Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr**

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cyflwynodd yr Aelod o’r Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai adroddiad, yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet o’r Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol (SHAP) diwygiedig sydd ynghlwm yn Atodiad 1 i’r adroddiad, sydd wedi’i ddiweddaru yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at baragraff 5.2 o’r SHAP a oedd yn rhestru 11 o opsiynau mewn pwyntiau bwled y gallai’r Cyngor a’i bartneriaid hwyluso Polisi Gosod Lleol drwyddynt. Gyda golwg ar hyn, nododd fod llety sy’n cynnwys llawer o fflatiau yn bwriadu cael eu gosod wrth ymyl meithrinfa newydd yn y Betws. Gofynnodd pa drefniadau diogelu oedd wedi’u trafod gyda’r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig (RSL), V2C, ynghylch agosrwydd y ddau gyfleuster hyn.<br><br>Cadarnhawyd y byddai’r pwynt hwn yn cael sylw gan Swyddogion Tai Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a V2C, y tu allan i’r cyfarfod.<br><br>Dywedodd y Dirprwy Arweinydd y dylai Swyddogion hefyd drafod â phartneriaid RSL nifer yr eiddo ‘gwag’ sydd wedi’u lleoli ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a ddylai anelu at gael eu lleihau a’u rhoi ar gael i’w meddiannu, ar gyfer darpar denantiaid a restrir fel rhai sy’n aros am lety.<br><br>Gofynnodd Aelod hefyd pa ymdrechion oedd yn cael eu gwneud i V2C gynyddu eu gwagleoedd o 75% i 100%, gan gydymffurfio â RSL eraill a SHAP y Cyngor.<br><br>Cadarnhawyd bod y mater hwn wedi cael ei drafod gyda V2C a oedd yn edrych i wella’r ganran hon.<br><br>Daeth yr Arweinydd â’r ddadl i ben ar yr adroddiad hwn drwy awgrymu bod y diffyg yn y cyflenwad o dai lleol yn rhywbeth y gellid edrych arno, o bosibl, yn y dyfodol gan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau, Amgylchedd a Thai, fel rhan o’i Flaenraglen Waith (FWP).<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet: |

**This document is available in English / Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | |
|---|---|
| | 1. Wedi cymeradwyo Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Pen-y-bont ar Ogwr sydd ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad.<br>2. Wedi rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Cyllid a Thrawsnewid i wneud mân amrywiadau i'r Polisi er mwyn caniatáu i unrhyw gynnydd yng nghanran eiddo Cymoedd i'r Arfordir gael ei ddyrannu drwy'r Gofrestr Dai Gyffredin. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 10 Mawrth 2026 |

## 616. Llety Dros Dro Digartrefedd

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Cynghorodd yr Aelod o'r Cabinet dros Adfywio, Datblygu Economaidd a Thai fod Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai a gymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Rhagfyr 2023 wedi nodi'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu o ran gwasanaethau tai a digartrefedd. Her allweddol yw galw a chost gysylltiedig llety dros dro.<br><br>Roedd yr adroddiad heddiw yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am lety dros dro a cheisiodd gymeradwyaeth i atal Rheolau Gweithdrefnau Contractau (CPRs) y Cyngor ac ymrwymo i gytundebau pellach gyda darparwyr llety preifat, er mwyn galluogi parhad trefniadau tymor byr, i fodloni dyletswyddau statudol mewn perthynas â llety dros dro.<br><br>Cynghorodd yr Arweinydd, mewn perthynas â chostau, fod y graff a ddangosir ym mharagraff 2.8 yr adroddiad, yn nodi bod y mesurau a rannwyd gyda'r Cabinet yn flaenorol fel y cyfeirir atynt ym mharagraff 3.1 (yr adroddiad) yn cael effaith gadarnhaol. Er bod y galw wedi parhau i godi, roedd costau yn dangos eu bod wedi gostwng 21% (£1,092,919) rhwng y cyfnod 2023–24 a 2025–26.<br><br>PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet:<br><br>1. Wedi nodi cynnwys yr adroddiad.<br>2. Wedi cytuno i atal rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefnau Contractau'r Cyngor o ran y gofyniad i dendro am gontract a dirprwyo awdurdod i'r Rheolwr Grŵp – Tai ac Adfywio Cymunedol i ymrwymo i Gytundebau Lefel Gwasanaeth gyda'r darparwyr llety presennol am gyfnod o 'hyd at' 12 mis neu 'hyd at' 3 blynedd lle mae budd masnachol i wneud hynny er mwyn parhau i ddarparu llety dros dro ychwanegol yn ôl yr angen i gyflawni dyletswyddau statudol y Cyngor. |

| | |
|---|---|
| | 3. Wedi rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Rheolwr Grŵp – Tai ac Adfywio Cymunedol gymeradwyo telerau terfynol y Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar ran y Cyngor a threfnu gweithredu'r cytundebau ar ran y Cyngor mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio ac Adnoddau Dynol ac Etholiadol.<br>4. Nodwyd y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i roi diweddariad am y sefyllfa ynglŷn â llety dros dro. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 10 Mawrth 2026 |

## 617. Cyfraddau Annomestig: Rhyddhad Dewisol: Cynllun Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod 2026–27

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Pwrpas yr adroddiad a gyflwynwyd gan yr Aelod o'r Cabinet dros Gyllid a Pherfformiad, oedd ceisio cymeradwyaeth gan y Cabinet i fabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru 2026–27. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i awdurdodau lleol yng Nghymru i gyflwyno'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod i fusnesau cymwys ar gyfer 2026–27.<br><br>Nod y cynllun yw darparu cymorth ar gyfer eiddo cymwys a feddiannir drwy gynnig gostyngiad o 15% ar filiau ardrethi annomestig ar gyfer eiddo o'r fath.<br><br>Cynghorodd y rhai oedd yn bresennol y gall y Cyngor benderfynu mabwysiadu'r Cynllun, ond ni all ei ddiwygio. Cynigiwyd, felly, fod y Cyngor yn mabwysiadu'r Cynllun ar gyfer 2026–27, drwy awdurdodi'r penderfyniadau priodol, fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol.<br><br>Manylwyd ar fanylion llawn y cynllun yn Atodiad A i'r adroddiad.<br><br>Nododd yr Arweinydd fod gofyn i fusnesau oedd yn gymwys wneud cais er mwyn elwa am unrhyw ostyngiad fel rhan o'r cynllun, ac felly, roedd angen i bob busnes fod yn ymwybodol ohono er mwyn gwneud cais addas. Felly anogodd y dylid rhoi cyhoeddusrwydd iddo yn unol â hynny drwy wefan y Cyngor neu drwy'r Tîm Cyfathrebu. |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

| | | |
|---|---|---|
| | PENDERFYNWYD: | Bod y Cabinet yn mabwysiadu Cynllun Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch Bwyd a Diod Ardrethi Annomestig 2026–27 fel y manylwyd arno yn Atodiad A i'r adroddiad. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 10 Mawrth 2026 | |

## 618. Adroddiad Gwybodaeth i'w Nodi

| | | |
|---|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Pwrpas yr adroddiad hwn gan y Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddio, AD a Pholisi Corfforaethol, oedd rhoi gwybod i'r Cabinet am yr Adroddiad Gwybodaeth sydd wedi'i gyhoeddi ers ei gyfarfod diwethaf.<br><br>PENDERFYNWYD: | <br><br><br><br>Bod y Cabinet yn cydnabod cyhoeddi'r adroddiad y cyfeirir ato ym mharagraff 3.1 o'r adroddiad. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 10 Mawrth 2026 | |

## 619. Eitemau Brys

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Nid oedd unrhyw eitemau brys. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 10 Mawrth 2026 |

## 620. Gwahardd y Cyhoedd

| | | |
|---|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: | Na ddylid cyhoeddi'r eitemau canlynol gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 a/neu 16 |

| | | |
|---|---|---|
| | | o Ran 4 a Pharagraff 21 o Ran 5, Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007.<br><br>Yn dilyn cymhwyso'r prawf budd cyhoeddus, penderfynodd y Cabinet, yn unol â'r Ddeddf, ystyried yr eitemau hyn yn breifat, gyda'r cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r fath. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 10 Mawrth 2026 | |

## 621. Cymeradwyo Cofnodion Eithriedig

| | | |
|---|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | PENDERFYNWYD: | Bod cofnodion cyfarfod y Cabinet dyddiedig 3/02/2026, yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 10 Mawrth 2026 | |

## 622. Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles yn Ailgomisiynu Gwasanaethau Gofal Cartref

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Mae'r eitem hon wedi'i heithrio ac felly nid yw'r penderfyniad ar gael i'r cyhoedd |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 10 Mawrth 2026 |

**This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg**

## 623. Strategaeth Gomisiynu Lleoliadau Gwasanaethau Plant a Theuluoedd 2025–2030

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Mae'r eitem hon wedi'i heithrio ac felly nid yw'r penderfyniad ar gael i'r cyhoedd |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 10 Mawrth 2026 |

## 624. Adroddiad ar y Cyd Eithriedig – Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Gorllewin Pen-y-bont ar Ogwr

| | |
|---|---|
| Y Penderfyniad a Wnaed | Mae'r eitem hon wedi'i heithrio ac felly nid yw'r penderfyniad ar gael i'r cyhoedd |
| Dyddiad y Gwnaed y Penderfyniad | 10 Mawrth 2026 |

I weld y ddadl bellach a gynhaliwyd ar yr eitemau uchod, cliciwch ar y ddolen hon

Daeth y cyfarfod i ben am 3:40pm.